

Cyngor Cymuned LLANBEDROG Community Council

Cofnodion Cyfarfod Hybrid 3 Hydref 2023 am 7:00 yr hwyr.

Presenol

David Andrew Parry (C) Hywel James Sinclair Evans, Gwenllian Davenport Hughes,
William Roger Jones, Ian Goronwy Williams, Alan Harper-Smith
Thomas Victor Jones, Ann Llwyd (Cyfieithydd) Carys Jones (Clerc)

1. Ymddiheuriadau

John Brinley Jones
Greta Hughes

2. Datgan Budduant

Dim

3. Derbyn Cofnodion Cyfarfod 18 Gorffennaf 2023

Cynnig: Thomas Vernon Jones

Eilydd: Ian Goronwy Williams

Gofynnodd Thomas Victor Jones os y byddai'n bosib cael cofnodion Cymraeg a Saesneg ar wahan o hyn ymlaen er mwyn arbed papur wrth brintio.

4. Unrhyw Fater Brys

Arwyddo sieciau

Cynnigiodd Thomas Victor Jones fod Ian Goronwy Williams yn awryddo sieciau.

Cytunodd Ian Goronwy Williams

Eilio: Gwenllian Davenport Hughes

Seddi Gwag

Nodwyd fod dwy sedd wag ar Cyngor ar hyn o bryd. Holodd David Andrew Parry os oedd rhywun yn gwybod am unrhyw berson fyddai hefo diddordeb?

Awgrymwyd efallai y byddai gan Mr Twrog Jones ddiddordeb, gan ei fod yn cymryd diddordeb yn yr ardal. Cytunwyd y byddai'r clerwr yn hysbysebu'r seddi gwag ar wefan y Cyngor Cymuned.

Cyfyngiadau 20 milltir yr awr

Nodwyd fod y mater yma wedi cael ei drafod yn y gorffennol. Awgrymwyd fod hyn yn synhwyrol ger yr ysgol. Cynigiodd Ian Goronwy Williams fod angen eithriadau ac fod y lón waelod (Lón Abersoch) yn enghraifft o hynny, oherwydd ei bod yn briffordd.

Nododd Hywel James Sinclair Evans ei fod o blaid y cyfyngiadau yma oherwydd ei fod yn gyflymder mwy diogel i deithio trwy ardaloedd cefn gwlad, ond ddim "blanket approach", ac yn cytuno hefo Ian Goronwy Williams, mewn rhai amgylchiadau, fod angen cael eithriadau.

Amgryodd Ian Goronwy Williams y byddai'n syniad i'r clercc gysylltu hefo Cyngor Gwynedd i holi beth yw'r broses i ofyn am eithriadau.

Eilio: Gwenllian Davenport Hughes

Lón Pin Solar

Nododd y clercc fod nifer o llythyrau wedi eu derbyn yn mynegi gwrthwynebiad i'r cynllun yma. Dywedodd Alan Harper-Smith ei fod yntau yn gwrthwynebu yn bennaf oherwydd fod y cynllun ar dir ffermio da.

Cytunwyd yn unfrydol fod y clercc yn cadw'r llythyrau ac y byddai'n synhwyrol i aros i'r cais cynllunio gael ei wneud.

Erthygl 4

Nodwyd fod y galw am dai yn broblem ar draws y sir ac fod prisiau tai yn uchel mewn pentrefi ar draws y sir yn cynnwys Llanbedrog ac Abersoch. Adroddodd Thomas Victor Jones fod hyn yn broblem tu allan i Gymru hefyd ac fod Gillian Thomas - Amodau Tai Teg yn gofyn am enghreifftiau am bobl lleol sydd yn cael trafferth cael cartref yn eu cymuned leol. Nododd Hywel James Sinclair Evans fuddiant personol - Tai Teg. Adroddodd fod y mater yn gymleth a'i bod hi'n broses anodd casglu tystiolaeth am broblem tai. Nododd ymhellach ei bod yn bwysig gwarchod y genhedlaeth ifanc, fod argaledd tai i'w rhentu wedi gostwng ac fod hynny'n bryder. Cytunwyd yn unfrydol i oedi i wedi os y bydd unrhyw strategaeth newydd/ gwahanol yn dod i law.

5. Llwybrau

Adroddodd Thomas Victor Jones fod cwynion wedi cael eu derbyn am ddau lwybr sef:

- (1) Llwybr rhwng Lón Pin a Stad Ty'n Pwll a
- (2) Llwybr yng ngefn yr ysgol

Adroddodd Ian Goronwy Williams fod y llwybr trwy'r Nant wedi ei goncritio ac yn edrych yn dda.

Adroddodd David Andrew Parry ei fod yn bryderus am faes parcio Cildwrn oherwydd fod yna dair coedend dal yn y lleoliad yma. Adroddodd ymhellach fod un goeden wedi disgyn yn barod. Awgrymwyd fod y clercc yn cysylltu hefo Cyngor Gwynedd.

Adroddodd Ian Goronwy Williams fod Mr Bryn Williams wedi planu blodau ger yr ysgol. Cytunodd y clercc i ysgrifennu at Mr Bryn Williams i ddiolch iddo am ei gyfraniad.

6. Y Fynwent Newydd

Dim datblygiad pellach. Cytunwyd i gadw golwg am unrhyw dir addas.

7. Cae Chwarae

Adroddodd Hywel James Sinclair Williams ei fod wedi mynychu cyfarfod ar 28.09.23 fod criw bach gweithgar ar waith ac fod oddeutu £10,000 yn y gronfa. Mae o ac Ian Goronwy Williams am ymuno á'r pwyllgor i gefnogi a helpu gyda'r cais i'r Loteri Cenedlaethol. Bydd cyfarfod eto ar 17.10.23 i ffurfio cynllun gweithredu a thrafod pa offer sydd ei angen. Nodwyd y byddai Antur Aelhaearn yn gyswllt da gan eu bod wedi helpu hefo prosiectau lleol tebyg yn y gorffennol.

Nodwyd fod un amcan bris wedi cael ei dderbyn i wneud y gwaith am swm o £25,500 ac fod angen dau arall. Ar ól derbyn dau amcan bris arall bydd angen edrych ar y polisi ysiwran. Adroddodd Gwenllian Davenport Hughes nad oedd hi wedi derbyn ymateb gan y cwmnïau mae hi wedi cysylltu á nhw. Adroddodd Thomas Victor Jones y byddai hi'n werth cysylltu hefo'r cwmni ysiwran ar ól derbyn dau amcan bris.

Taliadau i'w cymeradwyo:

(1) Cyfrifiadur/ Gliniadur Newydd

Adroddodd David Andrew Parry fod problemau wedi bod hefo'r cyfrifiadur ac o ganlyniad, fod John Brinley Jones wedi gorfod prynu cyfrifiadur newydd. Diolchodd y clerc am y cyfrifiadur newydd a chyflwyno derbyniad am y cyfrifiadur.

(2) Cyflog y clerc

Cytunwyd i dalu cyflog y clerc i gynnwys ól-daliad. Mae'r manylion gan John Brinley Jones.

Ceisiadau Cynllunio:

C23/0736/38/DT Glan y Mór, Glyn y Weddw, Llanbedrog

Estyniad ar yr ochr - fel nifer o dai eraill yn y lleoliad yma.

Dim gwrthwynebiad

C23/0649/38/DT Pen Llain, Llanbedrog

Nodwyd fod hwn yn ddatblygiad mawr ac fod y lleoliad yn eithaf anghysbell

Dim gwrthwynebiad o ran y cynllun gwreiddiol, ond nodwyd pryderon am y defnydd o'r fath ofod yn y dyfodol ac o bosib newid deunydd o'r adeilad.

Unrhyw Fater Arall

Adroddodd Thomas Victor Jones fod yr Eisteddfod Genedlaethol Llyn ac Eifionydd wedi bod yn Eisteddfod lwyddianus iawn ac fod y pentref yn edrych yn dda. Diolchodd i bawb fu'n brysur yn harddu'r ardal. Adroddodd ymhellach fod nifer o drugolion y pentref wedi cael eu hurddo i'r orsedd yn yr Eisteddfod ac y byddai'n werth cofnodi hynny'n swyddogol yng nghofnofion y Cyngor Cymuned.

Dyma enwau y rhai gafodd eu hurddo i'r orsedd:

Mared Gwyn, Awlefryn

Aled Hughes, Brynmor

Christine, Glenville gynt a

Catrin, Plas y Bryn

Ymddiheurodd Ian Goronwy Williams na fydd yn gallu bod yn bresennol yn y cyfarfod nesaf.

Dyddiad y cyfarfod nesaf: 31/10/23 am 7 yr hwyr.